

## CYNGOR DINAS BANGOR

### RHEOLIADAU ARIANNOL

#### Cyffredinol

1. Mae'r Rheoliadau Ariannol hyn wedi'u gwneud yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 1996 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) a byddant yn pennu'r ymdriniaeth o drafodion ariannol Cyngor Dinas Bangor (o hyn ymlaen cyfeirir ato fel 'y Cyngor') a dim ond drwy benderfyniad y Cyngor y gellir eu diwygio neu eu hamrywio.
2. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol (S.A.C.) a benodwyd gan y Cyngor, o dan gyfarwyddyd polisi'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol (Pwyllgor C ac AC), fydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol.
3. Yr S.A.C. fydd yn gyfrifol am gynhyrchu gwybodaeth rheolaeth ariannol.

#### Amcangyfrifon Blynyddol

4. Yn unol â gofynion Rhan IV o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, neu unrhyw ddarpariaeth statudol sy'n eu diwygio neu'n eu newid, dylai amcangyfrifon manwl o incwm a gwariant ar wasanaethau refeniw, a derbynebaw a thaliadau ar gyfrif cyfalaf, gael eu paratoi bob blwyddyn gan y S.A.C ar gyfer eu cyflwyno i'r Pwyllgor C ac AC ym mis Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol. Dylai argymhell y Praesept i'w godi yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Wedi i'r Pwyllgor C ac AC eu hystyried, dylent gael eu cyflwyno i'r Cyngor ynghyd â'r awgrym am y Praesept i'w godi yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Dylai'r S.A.C roi copi o'r amcangyfrifon a gymeradwywyd i bob Aelod o'r Cyngor.

#### Rheolaeth Gyllidebol

5. Dylai'r cyfalaf blynyddol a'r gyllideb refeniw ffurfio sail y rheolaeth ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol bresennol, yn ystod y cyfnod hwnnw, dylai'r S.A.C fod yn awdurdodedig i gymeradwyo'r trosglwyddiad o arian rhwng penawdau cyfrifon fel y tybir yn angenrheidiol neu'n ddymunol.
6. Dim ond hyd at y symiau a gynhwysir ym mhob pennawd cyfrif cymeradwyedig yn y gyllideb refeniw y gall gwariant gael ei wneud, os nad yw trosglwyddiadau priodol wedi cael eu cymeradwyo gan y S.A.C., dylent adrodd trosglwyddiadau o'r fath i'r Pwyllgor C ac AC.
7. Ni ddylai cynnwys darpariaeth at ddiben arbennig yn y gyllideb refeniw flynyddol olygu awdurdodi'r gwariant hwnnw. Dylid cael cymeradwyaeth benodol i wariant o'r fath drwy benderfyniad gan y Cyngor neu benderfyniad wedi'i ddogfennu a wnaed o dan bwerau dirprwyedig cywir ar gyfer unrhyw eitem o wariant refeniw a gafwyd, ac eithrio mewn perthynas â'r gwariant o ddydd i ddydd wrth weinyddu materion y Cyngor.

8. Serch telerau rheoliad 7 uchod, gall Clerc y Dref/S.A.C fynd i mewn i wariant ar ran y Cyngor, sydd yn angenrheidiol i wneud unrhyw fath o atgyweirio, ailosod neu unrhyw waith arall sydd mewn cymaint o frys i'w gwblhau mae angen ei wneud yn syth, p'un ai bod unrhyw ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y gwariant ai peidio, yn amodol ar derfyn o £10,000 (neu unrhyw swm arall sy'n cael ei gymeradwyo gan y Cyngor o dro i dro). Dylai Clerc y Dref/S.A.C adrodd am unrhyw weithred sydd wedi'i gymryd mor fuan ag sy'n bosibl wedi hynny i'r Pwyllgor C ac AC.
9. Lle mae gwariant a dynnir yn unol â rheoliad 8 uchod ac nid yw'r swm sydd ei angen yn cyfarfod ag arbedion a wnaed mewn manau eraill o fewn cyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor, dylai ddod o gronfeydd wrth gefn y Cyngor neu, os nad oes cronfeydd wrth gefn o'r fath ar gael, dylai fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau amcangyfrif atodol gan y Pwyllgor C ac AC.
10. Ni ddylai darpariaethau sydd heb gael eu cynnwys yn y refeniw cyllidebol gael eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ddilynol.
11. Ni ddylai gwariant gael ei dynnu mewn perthynas ag unrhyw brosiect cyfalaf nag unrhyw gytundeb wedi'i gytuno neu gynnig wedi'i dderbyn yn cynnwys gwariant ar gyfrif cyfalaf os nad yw'r Cyngor yn hapus fod yr arian cyfalaf angenrheidiol ar gael, neu y gellir cael cymeradwyaeth benthyca angenrheidiol.
12. Dylai pob gwaith cyfalaf gael ei weinyddu yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor a Rheoliadau Ariannol yn ymwneud â chontractau.
13. Dylai'r S.A.C gyflwyno i'r Cyngor, mewn cyfnodau cyson, Ddatganiadau ariannol sy'n dangos yr incwm a'r gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a gynlluniwyd.
14. Dylai'r S.A.C wneud cysoniad banc ar gyfer pob un o gyfrifon y Cyngor bob mis drwy gydol y flwyddyn ariannol a dylai adrodd i'r Pwyllgor C ac AC ar hynny bob chwarter.

### **Cyfrifo ac Archwilio**

15. Dylai holl weithdrefnau cyfrifo a chofnodion ariannol y Cyngor gael eu penderfynu gan y S.A.C fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio 1996 a Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) neu Reoliadau sy'n diwygio neu'n disodli'r fath Reoliadau.
16. Mae angen i'r S.A.C fod yn gyfrifol am gwblhau cyfrifon blynyddol y Cyngor cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a dylai eu cyflwyno ac adrodd arnynt i'r Pwyllgor C ac AC yn unol â hynny.
17. Dylai'r S.A.C fod yn gyfrifol am gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o gyfrifyddu'r Cyngor, gweithrediadau ariannol a gweithrediadau eraill, yn unol â gofynion Rheoliadau 5 o Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio 1996 a Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru). Dylai unrhyw swyddog neu Aelod o'r Cyngor, os yw'r S.A.C. yn mynnu hynny, roi ar gael unrhyw ddogfennau Cyngor sy'n gysylltiedig â'i gyfrifo a chofnodion eraill fel y mae'n ymddangos yn angenrheidiol i'r S.A.C. at ddiben yr archwiliad hwnnw a dylai roi i'r S.A.C. yr wybodaeth a'r eglurhad sydd eu hangen i'r diben hwnnw, yn nhyb yr S.A.C.

## Trefniadau Bancio Taliadau a Sieciau

18. Dylai trefniadau bancio'r Cyngor sy'n cynnwys bancio electronig gael eu gwneud gan y S.A.C a'u cymeradwyo gan y Cyngor. Dylai cyfrif cyfredol gael ei gynnal yn y banc, (Cyfrif cyffredinol) a chyfrif llog uchel os a phan mae cyfraddau llog yn gwella i gynnig elw rhesymol.
19. Mae angen i restr o daliadau o arian gael ei pharatoi gan y S.A.C. (ac, os gofynnwyd amdano, copïau wedi'u sganio o'r anfonebau a thalebau sy'n berthnasol ayb.) i gael eu cyflwyno drwy e-bost i'r Maer presennol, y Dirprwy Faer, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol. Os yw'r rhestr yn gywir, dylai gael ei chymeradwyo drwy e-bost gan unrhyw ddau o'r Aelodau uchod. Bydd unrhyw gwestiynau yn cael eu hateb cyn gynted â phosibl i sicrhau fod y Cyngor yn gallu talu eu biliau yn sydyn ac yn effeithiol.
20. Yn achlysurol, dylai sieciau ar y cyfrif cyffredinol gael eu llofnodi gan unrhyw ddau sydd â'r awdurdod i wneud hynny o blith Aelodau'r Cyngor. Yn amodol yn gyntaf ar gael cymeradwyaeth drwy e-bost gan unrhyw ddau o'r canlynol:-
  - Y Maer
  - Y Dirprwy Faer
  - Cadeirydd y Pwyllgor C ac AC
  - Is-Gadeirydd y Pwyllgor C ac AC

Dylai cymeradwywyr o'r fath fodloni ei hunain fel sy'n angenrheidiol o'r gwaith papur cefnogol fod swm y taliadau hynny yn gywir. Dylai taliadau hefyd gael eu gwrth-lofnodi gan y S.A.C (a/neu y cynorthwydd Cyllid/Gweinyddu) i sicrhau fod y S.A.C mewn sefyllfa nad oes taliadau yn cael eu gwneud sydd heb gael ei caniatáu yn gywir gan neu ar ran y Cyngor a drwy statud, gan ystyried y cyfrifoldeb gor-redol a freiniwyd yn y swyddog hwnnw, er mwyn ei alluogi i gael statws digonol ar ran y Cyngor wrth ddelio â'i fancwyr. Dylai mandad banc gael ei drefnu i'r perwyl hwn gan y S.A.C.
21. Dylai'r S.A.C gael caniatâd i drosglwyddo arian o gyfrif cyffredinol y Cyngor i'r cyfrif llog uchel, ac i'r gwrthwyneb, fel y gwêl yn briodol o dro i dro a dylai mandad banc ar gyfer y pwrpas hwnnw gael ei drefnu gan y S.A.C. Os am unrhyw reswm nad yw bancio electronig ar gael a bod angen cyhoeddi siec, gellir gwneud hyn yn unol â'r weithdrefn a amlinellwyd uchod.

## Taliadau a Chyfrifon

22. Heblaw am daliadau arian parod, dylai pob taliad gael eu gwneud drwy BACS, sieciau neu unrhyw archeb arall wedi'i llunio ar fancwyr y Cyngor.
23. Dylai'r holl anfonebau ar gyfer taliadau gael eu harchwilio, eu gwirio a'u hardystio gan y S.A.C. Cyn ardystio anfoneb, dylai'r S.A.C fodloni ei hun fod y gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r anfoneb yn ymwneud â nhw wedi cael eu derbyn, eu gwneud, eu harchwilio a'u cymeradwyo.

24. Dylai'r S.AC archwilio anfonebau i sicrhau eu bod yn gywir a dylai eu codio i'r pennawd gwariant priodol. Dylai gymryd pob cam posibl i setlo pob anfoneb a gyflwynwyd, ac sydd mewn trefn, o fewn 30 diwrnod i'w derbyn.
25. Dylai pob anfoneb a ardystiwyd yn briodol gael eu rhoi ar y rhestr y cyfeirir ato ym mharagraff 19 uchod.
26. Dylai'r Cyngor ddarparu'r S.A.C gyda swm priodol o arian parod ar gyfer y pwrpas o waith bob dydd a chostau eraill (postio ayb.). Dylai'r S.A.C gadw cofnod o arian parod sy'n cael ei dderbyn a'r taliadau sy'n cael eu gwneud wedi hynny.
27. Ni ddylai'r incwm a dderbynnir gael ei dalu i'r fflôt arian parod ond ei fancio heb oedi gormodol gan y S.A.C.
28. Dylai taliadau sy'n cynnal y llif arian parod gael ei ddangos ar wahân ar y rhestr o daliadau a gyflwynir i'r Cyngor o dan Baragraff 19 uchod.

### **Talu Cyflogau**

29. Dylai talu cyflogau i staff parhaol gael ei wneud yn fisol drwy drosglwyddiad banc. Dylai staff achlysurol gael eu talu yn fisol neu fel y penderfynir gan Glerc y Dref. Dylai'r taliadau yma gael eu dangos ar restr y taliadau fel ag y paratowyd yn unol â pharagraff 19 uchod.

### **Benthyciadau a Buddsoddi**

30. Dylai pob benthyciad a buddsoddiad gael eu trafod gan y S.A.C yn enw'r Cyngor a dylent gael eu gosod am gyfnod o amser yn unol â pholisi'r Cyngor. Dylai newid i fenthyciadau a buddsoddiadau gael eu hadrodd i'r Pwyllgor C ac AC cyn gynted â phosibl.
31. Dylai pob buddsoddiad o arian o dan reolaeth y Cyngor fod yn enw'r Cyngor.
32. Dylai pob benthyciad gael eu trefnu yn enw'r Cyngor.
33. Dylai pob tystysgrif fuddsoddi a dogfennau eraill yn ymwneud â hynny gael eu cadw gan y S.A.C., oni bai y penderfynir yn wahanol gan y Cyngor.

### **Incwm**

34. Mae angen i'r casgliad o bob swm sy'n ddyledus i'r Cyngor fod yn gyfrifoldeb ac o dan oruchwyliaeth y S.A.C.
35. Dylai manylion pob taliad am waith a wnaed, gwasanaethau a gyflawnwyd neu nwyddau a gyflenwyd gael eu hysbysu gan y S.A.C., a'r S.A.C. yn y pen draw fydd yn gyfrifol am gasglu pob cyfrif sy'n ddyledus i'r Cyngor.
36. Bydd y Cyngor yn adolygu'r holl ffioedd a thaliadau yn flynyddol, yn dilyn cyflwyno adroddiad am hynny gan Glerc y Dref/S.A.C.
37. Dylai unrhyw ddyled ddrwg gael ei hysbysu gan y S.A.C i'r Cyngor.
38. Dylai pob swm a dderbynnir ar ran y Cyngor un ai gael ei dalu i'r S.A.C ar gyfer ei fancio neu gael ei fancio yn ôl cyfarwyddyd y S.A.C. Ym mhob achos, dylai pob anfoneb gael ei hadneuo gyda bancwyr y Cyngor mor aml ag y mae'r S.A.C yn ei ystyried yn angenrheidiol.

39. Dylai cyfeirnod i'r ddyled gysylltiedig, neu fel arall, yn nodi tarddiad pob sic, gael eu rhoi ar y slip talu i mewn.
40. Ni ddylai sicciau personol gael eu rhyddhau allan o'r arian a ddelir ar ran y Cyngor.

### **Archebion ar gyfer Gwaith, Nwyddau a Gwasanaethau**

41. Mae angen i Archeb Swyddogol neu lythyr gael ei gyhoeddi i'r S.A.C ar gyfer pob gwaith, nwyddau neu wasanaethau, heblaw bod cytundeb ffurfiol yn cael ei baratoi neu fod Archeb Swyddogol yn amhriodol e.e. pryniant arian mân ayb. Dylai copïau o Archebion a gyhoeddwyd gael eu cadw.
42. Dylai llyfrau Archebion gael eu rheoli gan y S.A.C.
43. Dylai Clerc y Dref/S.A.C fod yn gyfrifol am gael y gwerth gorau am arian bob tro. Dylai sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ac ymarferol, ei fod yn cael y termau gorau ar gyfer pob trafodyn.

### **Contractau**

44. Mae'r gweithdrefnau o ran gosod contractau fel ag y nodir yn Rheolau Sefydlog y Cyngor sy'n ymwneud â hynny.
45. Lle mae contractau yn darparu taliadau mewn rhandaliadau, dylai'r S.AC gadw cofnod o bob taliad. Mewn unrhyw achos lle'r amcangyfrifir y bydd cyfanswm cost gwaith a wnaed o dan gontract, ac eithrio cymalau amrywio, yn uwch na swm y contract o 5% neu fwy, dylai adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor C ac AC.
46. Dylai unrhyw amrywiad i gontract neu ychwanegiad i neu hepgoriad o gontract gael ei gymeradwyo gan y S.A.C mewn ysgrifen, a'r Pwyllgor C ac AC i gael gwybod lle mae'r gost derfynol yn debygol o fod yn fwy na'r ddarpariaeth ariannol a wnaed ar ei gyfer.
47. Dylai unrhyw beth dros £10,000 a hyd at £25,00 gael ei gytuno arno gan unrhyw ddau o'r 'Cymeradwywyr Ariannol' (sef, y Maer, y Dirprwy Faer, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol) ac yna adrodd am hwn i'r Pwyllgor/Cyngor priodol.
48. Bydd unrhyw bryniannau dros £25,000 yn dod o dan y darpariaethau a osodwyd yn y Rheolau Sefydlog Rhifau 66-69.
49. Rhaid i unrhyw amrywiad i gontract neu ychwanegiad neu hepgoriad o gontract gael ei gymeradwyo gan y S.A.C. mewn ysgrifen, a dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor C ac AC pan mae'r gost derfynol o debygol o fod yn fwy na'r ddarpariaeth ariannol a wnaed ar ei chyfer.

### **Storfeydd ac Offer**

50. Dylai danfonebau gael eu casglu mewn perthynas â'r holl nwyddau a dderbynnir i mewn i'w storio a, cyn belled ag y bo'n ymarferol, dylai nwyddau gael eu gwirio o ran ansawdd ar yr adeg y gwneir y gwaith.
51. Yn gyffredinol, dylid cynnal stociau ar yr isafswm lefel sy'n gyson â gofynion gweithredol.

## Eiddo ac Ystadau

52. Dylai Clerc y Dref wneud trefniadau priodol ar gyfer dal yr holl weithredoedd teitl sy'n eiddo i'r Cyngor. Dylai'r S.A.C sicrhau fod cofnod yn cael ei gadw o bob eiddo sy'n berchen i'r Cyngor, drwy gadw cofnod o'r lleoliad, maint, cynllun, cyfeirnod, manylion prynu, natur y buddiant, tenantiaethau a roddwyd, rhenti sy'n daladwy a'r pwrpas y delir hwy, yn unol â gofynion Rheoliad 4(3)(b) o Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio 1996 a Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru), neu'r gofynion cyfatebol sydd wedi'u cynnwys mewn Rheoliadau dilynol.
53. Ni ddylai tir nac eiddo gael eu gwerthu, eu prydlesu na'u gwaredu fel arall heb awdurdod y Cyngor.

## Yswiriant

54. Y S.A.C. fydd yn gyfrifol am bob yswiriant ac am drafod pob hawliad ar yswirwyr y Cyngor.
55. Dylai'r S.A.C roi hysbysiad prydlon i'r Cyngor o bob risg newydd, eiddo neu gerbydau sydd angen cael eu hyswirio ac o unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar yr yswiriant presennol.
56. Dylai'r S.A.C gadw cofnod o bob yswiriant sydd gan y Cyngor a'r eiddo a'r risgiau sy'n cael eu cwmpasu ganddynt a'u hadolygu bob blwyddyn.
57. Dylai'r S.A.C gael ei hysbysu am unrhyw golled, atebolrwydd neu ddifrod neu unrhyw ddiwyddiad sy'n debygol o arwain at hawliad.
58. Dylai pob gweithwyr priodol o'r Cyngor gael eu cynnwys mewn yswiriant gwarant ffyddlondeb addas.

## Adolygu'r Rheoliadau Ariannol

59. Bydd yn ddyletswydd ar y Cyngor i adolygu ei Reoliadau Ariannol o dro i dro a gwneud unrhyw ddiwygiadau iddynt fel ag yr ystyria'n ddymunol.

---

Ian Jones  
Clerc y Dref / Swyddog Ariannol

Tachwedd 2019